Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# WAST Yn Cysylltu

**MEDI 2024**




**I Gefnogi.**
**I Wasanaethu.**
**I Achub.**

## Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i rifyn mis Medi o WAST yn Cysylltu. Mae ein cynlluniau newydd uchelgeisiol ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Wrth wraidd ein **Cynllun Tymor Canolig Integredig** mae cydnabyddiaeth bod angen trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn radical, nid yn unig ar gyfer ein cleifion a'n pobl, ond ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae ein model ymateb clinigol sy'n esblygu'n barhaus yn ceisio rheoli cleifion yn ddiogel i ffwrdd o'r adran achosion brys trwy gludo'r rhai y mae gwir angen iddynt fod yno yn unig. Dylai ffocws manylach ar gynllunio gofal penodol claf, gan ddechrau gyda sgrinio gwell ar gyfer galwadau 999 ac 111 gan glinigwyr profiadol, nid yn unig wella profiad y claf ond gobeithio y bydd yn helpu i leihau niwed y gellir ei osgoi. Er mai'r flaenoriaeth i raddau helaeth yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol, mae hefyd yn bwysig myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Bydd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddarach y mis hwn yn rhoi'r cyfle perffaith i wneud hyn, a byddwn yn eich gwahodd i ymuno â ni drwy **Zoom** ar gyfer cyfres o gyflwyniadau am y mentrau gwych rydym wedi'u cyflwyno yn 2023/24. Hoffwn estyn llongyfarchiadau i Nigel Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil ac Arloesedd, ar ei Athro er Anrhydedd ym Mhrifysgol Warwick, sy'n dyst i'w allu i arwain ymchwil o safon fyd-eang sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Fe gofiwch i ni dderbyn **statws Ymddiriedolaeth Brifysgol** gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill am ein hymrwymiad i ddatblygu ein gweithlu a sbarduno ymchwil ac arloesi, sy'n cael ei bersonoli gan Nigel. Llongyfarchiadau, Athro Rees. Rydym wedi cael mwy na 300 o enwebiadau ar gyfer ein **Gwobrau WAST blynyddol,** sy'n gyfle i gydnabod, dathlu a chymeradwyo ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae angen eich help arnon ni i ddewis yr enillwyr, felly darllenwch ymlaen am fanylion ynglŷn â sut i fwrw pleidlais. Wrth i ni baratoi ein hunain ar gyfer cyfnod prysur y gaeaf, rwy'n dal yn hynod falch o'r rôl y mae staff a gwirfoddolwyr #TîmWAST yn ei chwarae wrth helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl Cymru, er gwaethaf set o amgylchiadau hynod heriol. Diolch iddyn nhw, a hefyd i chi am eich cefnogaeth barhaus.





**Jason Killens**
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Cipolwg ar Berfformiad

### Awst 2024

Bu **34,554** o ddigwyddiadau 999

Mynychodd ein criwiau **4,808** o alwadau coch lle'r roedd bywyd mewn perygl uniongyrchol

Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo **14,378** o bobl i'r ysbyty

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys **46,835** o deithiau

Bu **64,992** o alwadau i GIG 111 Cymru

Mynychwyd **717** o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol **3,632** o deithiau



## Rhieni yn diolch i griw ambiwlans am achub bywyd eu babi

Nid oedd gan y gweithiwr post Danny, 33, a'r athrawes Natalie, 32, unrhyw syniad pa mor ddifrifol y byddai digwyddiadau'n dirywio ddiwrnod yn unig cyn i'w mab Jackson ddathlu ei ben-blwydd cyntaf. Dywedodd Natalie: "Y bore cyn pen-blwydd cyntaf Jackson, roedd o i'w weld bach yn ddiynni ac roedd bach o dymheredd gyda fo ond fel arall roedd o'n i'w weld yn iawn. "Ro'n i wedi bod draw i ymweld â mam ac yna yn ddiweddarach yn y prynhawn, wedi mynd i'r parc siopa i gael cerdyn pen-blwydd a chwpl o bethau eraill yn barod ar gyfer ei ben-blwydd. "Tra o'n i yn y siop gardiau, aeth Jackson yn gysglyd iawn ac erbyn i ni gyrraedd yn ôl at y car, roedd wedi dechrau cael trawiad." Doedd Jackson erioed wedi cael trawiad o'r blaen, ac roedd yn frawychus iawn ei weld fel yna, felly fe wnes i ffonio 999 ar unwaith ac egluro beth oedd yn digwydd." Cyrhaeddodd Ian Binnington, Uwch Ymarferydd Parafeddygol yn y Ganolfan Adnoddau Gwasanaethau Ambiwlans a Thân yn Wrecsam, y lleoliad bum munud yn unig ar ôl yr alwad 999 gychwynnol. Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.

## Parafeddyg Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cael ei ddyfarnu fel Athro er Anrhydedd

Cafodd Nigel Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil ac Arloesedd yr Ymddiriedolaeth, ei urddo'n Athro Anrhydeddus yn Uned Treialon Clinigol Ysgol Feddygol Prifysgol Warwick. Rhoddir teitlau er anrhydedd gan brifysgolion i'r rhai sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i fusnes academaidd, fel arfer trwy gydweithrediad ymchwil, addysgu clinigol neu'r ddau. Dywedodd yr Athro Gavin Perkins, Deon Ysgol Feddygol Warwick: "Mae'n bleser gan Ysgol Feddygol Warwick groesawu'r Athro Nigel Rees i'w hathraw er anrhydedd. "Mae ei benodiad yn cydnabod ei gyfraniad sylweddol a pharhaus i ymchwil sydd wedi bod yn hanfodol wrth ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar y GIG i drawsnewid gwasanaethau a gwella canlyniadau i gleifion a'u teuluoedd. "Rydym yn edrych ymlaen at gydweithrediad hirhoedlog gyda Nigel a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru." Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.






## Pleidleisio ar agor ar gyfer Gwobrau WAST 2024

Mae pleidleisio ar agor mewn pedwar categori yng Ngwobrau WAST 2024, gan gynnwys Tîm y Flwyddyn, Ysbrydoli Eraill, Gwrandäwr Gwych a Dewis y Bobl. Dywedodd yr Athro Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: "Mae'r Ymddiriedolaeth yn llawn o bobl anhygoel, yn gwneud pethau rhyfeddol bob dydd. "Heb eu gwaith caled, eu gofal a'u hawydd i helpu pobl Cymru, ni fyddai'r gwasanaeth yn gweithredu. "Felly, mae'n bwysig iawn ein bod ni'n cydnabod, yn dathlu ac yn canmol ein staff a'n gwirfoddolwyr. "Nid dim ond unrhyw swydd yw gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans – mae'n swydd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, felly mae Gwobrau WAST yn gyfle i gymryd saib a myfyrio ar eu cyflawniadau a dweud diolch enfawr. "Mae tîm WAST yn cynnwys dros 4,000 o bobl ac er eu bod i gyd yn cyfrannu yn eu ffyrdd unigryw eu hunain, dyma gyfle'r cyhoedd i ddweud wrthym pwy ddylai gael cydnabyddiaeth arbennig ychwanegol yn eu barn nhw. Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.

## Pam rydyn ni'n aros ar X

Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o ddadlau cyhoeddus ar hyn o bryd ynghylch priodoldeb parhau i ddefnyddio X, a elwid gynt yn Twitter. Rydym yn cydnabod bod cynnydd diweddar mewn lleisiau annymunol ac, ar waethaf, enynnol, wedi ei gwneud yn anodd i'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel grym er daioni. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu bod rhai pobl a sefydliadau, gan gynnwys o'r GIG, wedi dewis gadael y llwyfan. Fel gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol Cymru ac ymatebwr categori un sydd â dyletswydd i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn argyfwng, mae'n hanfodol ein bod yn gallu cyrraedd y cyhoedd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Nid yw ein presenoldeb parhaus ar X yn arnodiad o ymddygiad gwenwynig, ac ni fyddwn yn goddef ymddygiadau o'r fath sydd wedi'u cyfeirio atom ni, na'n pobl. Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.



## Ystadegau Cymdeithasol

**Cyfanswm y dilynwyr: 71,933**

**Cyfanswm y negeseuon: 535**

**Nifer o ymweliadau â'r ddolen: 1,093**

**Cyfanswm y cyrhaeddiad: 265,225**

## Cymryd Rhan

**Ymunwch â chyfarfod Bwrdd deufisol yr Ymddiriedolaeth**
Rydym yn eich gwahodd i ymuno drwy Zoom i wrando ar uwch arweinwyr yn trafod agenda llawn eitemau, gan gynnwys adroddiadau deufisol gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a chynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a stori profiad y claf. Cliciwch **yma** i gofrestru.



**Ymunwch â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Ymddiriedolaeth**
Rydym yn eich gwahodd i ymuno drwy Zoom i wrando ar uwch arweinwyr yn trafod agenda llawn eitemau, gan gynnwys adroddiadau deufisol gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a chynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a stori profiad y claf. Cliciwch **yma** i ddarganfod mwy.



## Ymgyrch y Mis




www.ambiwlans.gig.cymru Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Ambiwlans_Cymru welshambulanceservice Welsh Ambulance Services University NHS Trust